



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth GIG  
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
NHS Trust



# GIG 111 Cymru



## GIG 111 Cymru

- yn wasanaeth ffôn am ddim.
- mae ar gael 24 awr y dydd bob dydd.

Y rhif ffôn yw 111



## Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn:

- Os ydych chi'n teimlo'n sâl ac nad ydych chi'n gwybod beth i'w wneud, neu
- Os ydych chi eisiau gwybodaeth am wahanol gyflyrau iechyd a gwasanaethau iechyd lleol



Gallwch hefyd ffonio 111 os oes angen eich meddyg arnoch ond eu bod ar gau.




Pan fyddwch yn ffonio byddwch yn clywed neges lais wedi'i recordio. Gwrandewch yn ofalus.



Yna bydd rhywun yn gofyn cwestiynau i weld pa help sydd ei angen arnoch chi.

Os yw'n brysur, efallai y bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl yn nes ymlaen.

Byddant yn dweud wrthy'ch pryd y byddant yn eich ffonio'n ôl.



Efallai y byddwch chi'n siarad â

- Nyrs
- Nyrs ddeintyddol
- Staff gwybodaeth iechyd



Efallai y byddan nhw'n dweud wrthy'ch chi sut i edrych ar ôl eich hun gartref.

Efallai y byddan nhw'n dweud wrthy'ch chi am fynd i weld fferylllydd.



Os yw'ch problem yn fwy difrifol,  
efallai y byddan nhw'n dweud wrthy ch  
chi

- mynd i weld meddyg
- neu ewch i'r ysbyty



Os yw'ch problem yn ddifrifol iawn,  
gall y staff ffonio ambiwlans i chi.



Mae yna hefyd wefan  
GIG 111 Cymru.


Gallwch gael llawer o  
wybodaeth iechyd yno.

**[111.wales.nhs.uk](http://111.wales.nhs.uk)**



Mae tudalennau ar y wefan lle  
gallwch gael gwybodaeth hawdd ei  
darllen am wahanol bynciau iechyd.

Chwiliwch am y  
Ddraig Hawdd i'w Darllen.



# Sut oedd eich profiad gyda ni?



Mae dweud wrthym am eich profiadau a'ch straeon yn bwysig iawn.

Rydyn ni wir eisiau i bobl fod wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud. Rydym am sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r gefnogaeth orau y gallant.



Gall eich straeon wneud gwahaniaeth i'r hyn rydyn ni'n ei wneud a gall helpu i wella profiadau pobl eraill.

Os hoffech roi adborth inni am Wasanaeth Ambiwylans Cymru, gallwch:



Ffonio **0330 123 9207**



Ebost trwy **PECI.team@wales.nhs.uk**



Neu gallwch ymweld â'r dudalen **Dweud eich Dweud** ar ein gwefan

**www.ambulance.wales.nhs.uk**